**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Cofnodion cyfarfod Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd 19eg Medi 2011 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 2pm.

PRESENNOL

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd S Frobisher (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cynghorydd A M Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cynghorydd L W Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cynghorydd M Ll Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cynghorydd G C Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cynghorydd G James | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cynghorydd P Jeffares | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Y Cynghorydd J V Owen | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cynghorydd T Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Y Cynghorydd J R Skelland | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Y Cynghorydd M Thomas | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

HEFYD YN BRESENNOL:

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); C Everett (Clerc); K Finch (Trysorydd); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); P Claydon, C Hanks ac R Simmons (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); G Brandrick (Uwch Reolwr Gweithrediadau); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); S Teal-Bromley (Rheolwr Cefnogi Gweithredol); C Dingle (Rheolwr Cyllid); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

Ymddiheuriadau

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cynghorydd W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| Y Cynghorydd W P Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Sandra Forrest | Prif Gyfrifydd - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

1 RHYBUDD O FATERION BRYS

1.1 Roedd dwy eitem frys wedi cael eu cyflwyno i'r Cadeirydd i'w hystyried, sef:

- y diweddaraf ynglŷn â'r Grŵp Ymateb i Ddigwyddiadau ar y Môr (eitem rhan I)
- briffiad gan y Prif Swyddog Tân ynglŷn ag anghydfod diwydiannol a gofnodwyd gan Undeb yr FBU a threfniadau parhad busnes (eitem rhan II).

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

2.1 Dim.

3 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 18FED GORFFENNAF 2011

3.1 Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18fed Gorffennaf yn gofnod cywir.

4 MATERION YN CODI

4.1 Dim.

5 YR OPSIYNAU O RAN Y GYLLIDEB 2012-13

5.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i gwblhau'r argymhellion i'r Awdurdod Tân ac Achub yn dilyn yr asesiad o'r opsiynau o ran y gyllideb a wnaed gan y Gweithgor Lleihau Risg.

5.2 Roedd gweithgor bychan o Aelodau wedi cyfarfod nifer o weithiau i drafod y gwahanol opsiynau a oedd ar gael o ran y gyllildeb, a hynny er mwyn ymdrin â'r cyfyngiadau ariannol a oedd yn wynebu'r Awdurdod. Atgoffwyd yr Aelodau gan y Prif Swyddog Tân fod angen penderfyniad cadarn ar yr Awdurdod llawn yn ei gyfarfod ym mis Hydref, a hynny er mwyn gwneud y gorau o'r amser sydd ar gael i gyflawni'r newidiadau; gallai unrhyw oedi olygu na fyddid yn cael yr holl arbedion yr oedd eu hangen.

5.3 Atgoffwyd yr Aelodau gan y Dirprwy Brif Swyddog Tân am benderfyniad yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 10fed Rhagfyr 2010 i wneud arbedion o £800,000 y flwyddyn dros dair blynedd, a bod yr arbedion hyn i gael ei gwneud o bob rhan o'r Gwasanaeth. Llwyddwyd i gael yr arbedion yn y flwyddyn gyntaf (2011-12) trwy adolygiad o ofal swyddogion, lleihau diogelwch cymunedol, swyddi staff cefnogol, a rhoi terfyn ar rai o'r dyletswyddau anstatudol.

5.4 Rhoddodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Hanks wybod i'r Aelodau fod gwaith yn parhau y tu ôl i'r llenni i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cyflwyno mor effeithiol ag y bo modd. Roedd nifer o feysydd lle'r oedd trefniadau ar y cyd â sefydliadau eraill yn eu lle, er enghraifft swyddogion y wasg ar-alwad, a'r Ganolfan Gyfathrebu ar y cyd. Fel Cadeirydd y Bwrdd Datblygu Cynaliadwyedd, cadarnhaodd PSTC Hanks fod y Bwrdd yn edrych ar ffyrdd i leihau'r defnydd a'r gost sy'n gysylltiedig ag ynni, dŵr a thanwydd.

5.5 Esboniodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Claydon fod yr opsiynau a restrir yn yr adroddiad wedi cael eu harchwilio'n fanwl gan y Gweithgor, a bod yr Aelodau'n awyddus i gydnabod effaith yr opsiynau ar wasanaethau a'r staff. O blith y pum opsiwn a restrir, byddai pedwar yn golygu llai o ofal tân mewn rhyw ffordd, naill ai trwy gael gwared ar bympiau neu trwy orfod cynyddu'r amser ymateb. Opsiwn 6 (i) yn yr adroddiad oedd yr unig opsiwn na fyddai'n lleihau lefel y gwasanaeth a gyflwynir i'r cyhoedd.

5.6 Esboniodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Simmons fod pob opsiwn yn cynnig heriau a risgiau, a bod themâu cyffredin o safbwynt Adnoddau Dynol a chyfraith cyflogaeth. Eglurodd PSTC Simmons y materion ynghylch ymddeoliad cynnar ac ymddeoliad gorfodol a gwirfoddol. Nodwyd bod y Prif Swyddogion yn cynnal ymweliadau â gorsafoedd yn rheolaidd, ac wedi bod yn trafod materion y gyllideb gyda'r gweithlu yn ehangach ers dros flwyddyn.

O ran y Ddeddf Cydraddoldeb, esboniodd PSTC Simmons fod asesiadau ardrawiad cydraddoldeb wedi cael eu cychwyn mewn perthynas â phob opsiwn, a chadarnhaodd fod yr Awdurdod yn cwrdd â'i ymrwymiad cyfreithiol wrth i'r broses fynd rhagddi.

5.7 Roedd y Trysorydd yn fodlon â'r gwaith a wnaed i adnabod ffyrdd i gwrdd â'r arbedion yr oedd eu hangen, ac roedd y Clerc yn teimlo ei bod yn bwysig bod yr Aelodau yn rhoi'r fframwaith a'r meini prawf y cytunwyd arnynt yn flaenllaw yn eu meddyliau wrth drafod materion y gyllideb. Roedd y Trysorydd a'r Clerc yn teimlo bod yr asesiadau ardrawiad cydraddoldeb yn rhan bwysig o'r gwaith.

5.8 Dywedodd y Cynghorydd T Roberts ei fod wedi bod mewn sawl cyfarfod o'r Gweithgor, a bod yr Aelodau wedi edrych ar bob math o opsiynau ac wedi cael trafodaethau hirfaith amdanynt. Prif bryder y Gweithgor oedd amddiffyn y gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd, ac felly cyngiwyd opsiwn 6 (1) gan y Cynghorydd Roberts. Pwysleisiodd bwysigrwydd y trafodaethau rhwng y Gwasanaeth a'r undebau cynrychioliadol. Cadarnhaodd y Prif Swyddog Tân fod y trafodaethau gyda'r undebau yn parhau, a'i fod yn hyderus y byddai'r ddwy ochr yn gweithio gyda'i gilydd i gael penderfyniad a fyddai'n dderbyniol i'r naill ochr a'r llall.

5.9 Hefyd, soniodd y Cadeirydd am broses hirfaith y Gweithgor, a bod dileu swyddi yn opsiwn anffodus. Eiliodd y Cynghorydd J V Owen gynnig y Cynghorydd Roberts fod y Panel Gweithredol yn argymell opsiwn 6 (i) i'r cyfarfod o'r Awdurdod llawn ar 17eg Hydref.

5.10 **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

- **(i) nodi'r gwaith manwl a wnaed gan y Gweithgor Lleihau Risg;**
- **(ii) nodi dewis gorau'r Gweithgor hwnnw – sef gweld arbedion yn dod trwy gytundeb wedi ei drafod ynglŷn â newidiadau i'r system cylchrestru criwiau;**
- **(iii) nodi ymhellach fod risgiau'n gysylltiedig â'r opsiwn hwnnw;**
- **(iv) cydnabod bod angen gwneud penderfyniadau heb fod yn hwyrach na chyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ar 17eg Hydref 2011 er mwyn rhoi digon o amser i weithredu'r newidiadau hynny;**
- **(v) nodi y bydd yr Awdurdod yn disgwyl argymhelliad cryf gan y Panel Gweithredol;**
- **(vi) cefnogi dewis gorau'r Gweithgor Lleihau Risg, a bod y gefnogaeth honno'n cael ei chyfleu i'r Awdurdod llawn ar 17eg Hydref 2011;**
- **(vii) nodi y gallai'r gofyniad i wneud yr arbedion angenrheidiol ym mlwyddyn ariannol 2012-13 arwain at yr angen i weithredu rhai neu bob un o'r opsiynau eraill o ran y gyllideb a ystyriwyd gan y Gweithgor Lleihau Risg petai'n amhosibl cael cytundeb ynghylch y dewis goau.**

Ar yr adeg hon, roedd rhaid i'r Cynghorydd J V Owen adael i fynd i gyfarfod arall. Adroddodd y Prif Swyddog Tân ynghylch yr eitem frys ar y Grŵp Ymateb i Ddigwyddiadau ar y Môr cyn i'r Cynghorydd Owen adael y cyfarfod.

6 EITEM FRYS: GRŴP YMATEB I DDIGWYDDIADAU AR Y MÔR (MIRG)

6.1 Rhoddodd y Prif Swyddog Tân y diweddaraf i'r Aelodau am sefyllfa'r Grŵp Ymateb i Ddigwyddiadau ar y Môr. Yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2011, roedd yr Awdurdod wdi cael gwybod bod yr Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau (MCA) yn gorfod lleihau ei chyllideb erbyn 2015, a bod hyfforddiant ar y cyd yn y Grŵp, ynghyd â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gydag Awdurdodau Tân ac Achub, yn un o'r meysydd dan fygythiad. Roedd yr Awdurdod wedi cytuno i barhau i ariannu'r Grŵp hyd nes y byddai canlyniad ymchwiliad y Pwyllgor Dethol Cludiant yn hysbys. Erbyn hyn, roedd y Prif Swyddog Tân wedi derbyn llythyr gan yr Asiantaeth yn dweud na allai, yn dilyn yr ymchwiliad, barhau i gefnogi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ynghylch cyfleuster y Grŵp, ac y byddai'n tynnu allan o'r prosiect ar 14[eg] Rhagfyr 2011.

6.2 Mynegodd y Cynghorydd J V Owen ac Aelodau eraill siom ynghylch y penderfyniad hwn, a chadarnhaodd y Prif Swyddog Tân y byddai'n ysgrifennu at yr Asiantaeth i fynegu barn gref yr Awdurdod.

6.3 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

7 YMATEB I'R YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS AR AMCANION ATAGC AR GYFER GWELLA YN 2012-13

7.1 Cyflwynwyd, gan y Rheolwr Cynllunio Corfforaethol, ganlyniadau'r ymgynghoriad a gynhaliwyd dros fisoedd yr haf. Yn dilyn cytundeb y Panel Gweithredol, roedd y broses ymgynghori wedi cael ei symleiddio, a mabwysiadwyd dull gwahanol. Cafodd taflen yn gofyn am farn ynghylch yr 8 amcan ei dosbarthu i'r staff, a gwahoddwyd y cyhoedd hefyd i ymateb i'r ymgynghoriad. Daeth 56 o ymatebion i law, ac o blith y rheini, roedd 52% wedi dweud eu bod yn byw yng Ngogledd Cymru. Ar y cyfan, roedd pob amcan yn cael ei chefnogi, ac roedd rhai sylwadau cadarnhaol ac awgrymiadau wedi cael eu gwneud.

7.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

8 CYNNWYS Y CYNLLUN CYFUNOL I LEIHAU RISG A GWELLA 2010/11 HYD AT 2012/13

8.1 Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Dirprwy Brif Swyddog Tân, a oedd yn ceisio cefnogaeth yr Aelodau i strwythur arfaethedig ar gyfer y Cynllun Cyfunol drafft i Leihau Risg a Gwella 2010-13 a fydd yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod o'r Awdurdod Tân ac Achub llawn ar 17[eg] Hydref 2011 i'w gymeradwyo.

8.2 Gofynnwyd hefyd i'r Aelodau nodi y bydd angen, oherwydd amseru'r penderfyniadau, i strategaeth yr Awdurdod ar gyfer gwneud arbedion yn 2012-12 gael eu hysgrifennu yn Adran 4 o'r Cynllun Cyfunol yn dilyn cyfarfod yr Awdurdod llawn ar 17[eg] Hydref 2011 ond cyn dyddiad terfynol statudol ei gyhoeddi, sef 31[ain] Hydref 2011.

8.3 **PENDERFYNWYD**

**(i) cefnogi'r bwriad i gadw'r un strwythur ar gyfer Cynllun Cyfunol i Leihau Risg a Gwella 2010-13 â Chynllun Cyfunol y flwyddyn flaenorol, ond gyda gwybodaeth wedi ei diweddaru;**

**(ii) nodi'r angen i gynnwys yn y Cynllun Cyfunol grynodeb o benderfyniad(au) yr Awdurdod Tân ac Achub ynglŷn â'r opsiynau o ran y gyllideb 2012/13; a**

**(iii) chytuno ar y trefniadau y mae'n bwriadu eu mabwysiadu ar gyfer cymeradwyo geiriad yr adran hon o'r Cynllun Cyfunol yn dilyn cyfarfod yr Awdurdod ar 17eg Hydref 2011 a chyn y dyddiad terfynol statudol sef 31ain Hydref 2011.**

9 MONITRO PERFFORMIAD

9.1 Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân yr adroddiad perfformiad am Ebrill - Mehefin 2011. Bu'r perfformiad yn well ymhob maes yn nhri mis cyntaf y flwyddyn ariannol gyfredol o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd.

9.2 Bu gostyngiad o 21% yn nifer y tanau eilaidd, a gellid priodoli hyn i'r gwaith a wnaed ym mis Chwefror gyda'r gymuned amaethyddol a thirfeddiannwyr ynghylch tanau glaswelltir ac awyr agored.

9.3 Gwnaed gwaith pellach i ganfod pam nad oedd larymau mwg wedi canu pan oedd mwg. Mewn tua 50% o'r achosion, nid oedd y larwm yn gweithio, ond yn y rhan fwyaf o'r achosion eraill, nid oedd y larwm mwg wedi canu oherwydd fod y tân mewn rhan arall o'r eiddo. Gofynnodd y Cynghorydd M Ll Davies a oedd modd ychwanegu colofn yn yr adroddiad i ddangos hyn yn y dyfodol.

9.4 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

10 DATGANIAD O GYFRIFON

10.1 Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Trysorydd, a oedd yn rhoi cyfle i'r Panel Gweithredol roi sylwadau ar y Datganiad archwiliedig o Gyfrifon 2010-11 cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio i'w gymeradwyo.

10.2 **PENDERFYNWYD nodi'r Datganiad o Gyfrifon 2010-11, ac nid oedd unrhyw sylwadau i'w cyfeirio i'r Pwyllgor Archwilio.**

11 ADRODDIAD MONITRO BWRDD YR IAITH GYMRAEG

11.1 Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Hanks, a oedd yn gofyn i'r Aelodau gymeradwyo Adroddiad Monitro Cynllun Iaith Gymraeg Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru 2010-11 cyn ei gyflwyno'n ffurfiol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

11.2 Estynnodd y Cynghorydd L W Davies ei longyfarchiadau i bawb sy'n ymwneud â hyrwyddo'r Gymraeg, a theimlai ei bod yn bwysig i'r cyhoedd allu cysylltu â'r Gwasanaeth yn eu dewis iaith. Roedd hefyd yn falch o ymrwymiad y Gwasanaeth i roi cyfle i bawb ddysgu Cymraeg trwy'r profion lefel 1 a 2. Ategwyd hyn gan Aelodau eraill.

11.3 **PENDERFYNWYD nodi'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r Cynllun iaith Gymraeg, a chymeradwyo Adroddiad Monitro 2010-11 cyn ei gyflwyno'n ffurfiol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.**

**RHAN II**

12 GWEITHREDU DIWYDIANNOL POSIB YN Y GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB YN Y DEYRNAS UNEDIG

12.1 Rhoddodd y Prif Swyddog Tân wybod i'r Aelodau am "ddiwrnod gweithredu" sydd yn yr arfaeth gan undebau llafur y sector cyhoeddus, a'r disgwyl yw y caiff ei gynnal ar 30ain Tachwedd 2011. Er nad oes hysbysiad ffurfiol wedi dod eto, mae'n bosibl y bydd Undeb yr FBU, UNSAIN ac UNITE yn cymryd rhan. Yna, cafodd yr Aelodau eu briffio gan y Prif Swyddog Tân am drefniadau Parhad Busnes yr Awdurdod petai gweithredu diwydiannol yn digwydd.

12.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**